| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cymhorthwyr Cefnogaeth Gymunedol |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i'r** | Rheolwr Cymorth Cymunedol |
| **Lleoliad** | |

**Diben y Swydd**

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir y Fflint yn darparu gofal a chefnogaeth i alluogi pobl i barhau i fyw'n dda yn eu cartrefi eu hunain.

Rydym yn cynnig cymorth hyblyg i bobl, sydd wedi'i deilwra o amgylch yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rydym yn cefnogi pobl i barhau'n annibynnol drwy ddarparu gofal a chefnogaeth gyda dull ail-alluogi. Gall y gefnogaeth amrywio'n eang, ac mae'n cynnwys rhoi cymorth gyda gofal personol, mynd i'r gawod, gwisgo, rhoi cymorth gyda meddyginiaeth, gofal y geg, hyrwyddo iechyd a lles, cymorth gyda chynllunio a pharatoi prydau.

**Prif Gyfrifoldebau**

Cefnogi pobl gyda dull ail-alluogi gan wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth bersonol a chorfforol o fewn eu cartrefi.

Adeiladu perthnasau gydag unigolion a'u teuluoedd sy'n byw gyda dementia, gan eu cefnogi i gadw rheolaeth dros eu bywydau a sicrhau bod eu hanghenion, dymuniadau a'u teimladau yn cael eu diwallu mewn modd hyblyg sy'n hyrwyddo ac yn gwella annibyniaeth yn y cartref ac yn y gymuned.

Darparu gofal a chymorth i unigolion gydag anghenion gofal cymhleth, gan gynnwys gofal diwedd oes.

Datblygu perthnasau gweithio effeithiol gyda rheolwr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eraill i gyflawni'r deilliant gorau ar gyfer yr unigolion rydym yn eu cefnogi.

Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Cyngor Sir y Fflint a'r Canllawiau Arferion Gorau a chadw at safonau Iechyd a Diogelwch personol ac yn y gweithle.

Ymgymryd â hyfforddiant pan fo angen, gan ymdrechu'n rhagweithiol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau a chyfrannu at gyfarfodydd tîm a staff.

**Goruchwylio/Rheoli Pobl**

Dim

**Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol, h.y. DBS**

Dim

**Amodau Gwaith Arbennig**

Dim

| Manylion yr Unigolyn | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd, ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd/Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| FfCCh Lefel 2 mewn Gofal neu ymrwymiad i gyflawni hyn. | Dymunol | Ffurflen Gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Dealltwriaeth dda o anghenion pobl hŷn sy'n agored i niwed o ganlyniad i anableddau corfforol, amhariad synhwyraidd, problemau iechyd meddwl/dementia. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Gallu datblygu ac adeiladu perthnasau gyda phobl, gan ymateb yn gyfannol i anghenion unigol. | Dymunol | Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Gallu adeiladu perthnasau cadarnhaol gyda phobl yr ydym yn eu cefnogi. | Hanfodol | Ffurflen Gais |
| Sgiliau cadw cofnodion a chyfathrebu da. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Deall pwysigrwydd gweithio mewn tîm | Hanfodol | |
| Yn gyfeillgar, yn gynnes, yn frwdfrydig ac yn sensitif i anghenion eraill. | Hanfodol | Cyfweliad |
| Hunan gymhelliant i gymryd cyfrifoldeb personol i ddarparu gofal a chefnogaeth o safon uchel. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Ymrwymiad i ddatblygiad personol a hyfforddiant parhaus. | Hanfodol | Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut bydd yn cael ei asesu?** |
| **Rhoi'r Cwsmer yn Gyntaf:** Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni a rhagori ar eu disgwyliadau | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:** Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i ni ei gyflawni yn ein gwaith a meddu ar y sgiliau, cymhelliant, brwdfrydedd ac ymrwymiad i weithio'n effeithiol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cydweithio/Gweithio mewn partneriaeth:** Meithrin a chynnal perthnasau cadarnhaol er mwyn darparu gwasanaethau gwell ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:** | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, parchu ein gilydd, mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir | | |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau trwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Arwain a chymell eich hun ac eraill i wella perfformiad yn barhaus | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |